# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021

Amser: 09.00 - 09.21

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Dai Lloyd AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

# 1 Introductions, apologies and substitutions

Croesawodd y Llywydd Dai Lloyd, oedd yn eilyddio ar ran Sian Gwenllian

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Busnes yr wythnos hon**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at un newid i Fusnes yr Wythnos Hon – bydd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud y datganiad ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn lle'r Gweinidog.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.35pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw’r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.10pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 26 Ionawr 2021**

- Datganiad gan y Gweinidog Addysg: ~~Lansio Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm~~ Y wybodaeth ddiweddaraf am Gymwysterau ar gyfer 2021 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg: Cyhoeddi'r polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd (30 munud) – *gohiriwyd o 15 Rhagfyr 2020*
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud)
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 i drin Bil a gaiff ei alw'n Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) fel Bil Brys y Llywodraeth
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii)) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a gaiff ei alw'n Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)
- Dadl:  Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2019-20 (30 munud) – *gohiriwyd o 8 Rhagfyr 2020*

**Dydd Mawrth 2 Chwefror 2021**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad Adolygiad Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cynnydd o ran Trethi Datganoledig (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 (15 munud)
- ~~Dadl:  Cyfnod 4 y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (Diwygio) (15 munud)~~ – *gohiriwyd*

Byddai nodyn yn cael ei anfon at yr Aelodau yn amlinellu'r weithdrefn a'r amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Brys. Byddai copi cynnar yn cael ei ddosbarthu i'r Rheolwyr Busnes.

Tynnodd y Llywydd sylw'r Rheolwyr Busnes at amserlennu Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi ddydd Mercher 10 Chwefror, yr un diwrnod â Chyfnod 3 disgwyliedig y Bil Brys.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau busnes canlynol, a chytunodd i adolygu'r busnes ar gyfer 10 Chwefror ar ôl i'r amserlen ar gyfer y Bil Brys gael ei chadarnhau.

**Dydd Mercher 10 Chwefror 2021 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 27 Ionawr:

**Dai Lloyd**

**Neil Hamilton**

**Huw Irranca-Davies**

**Adam Price**

**Andrew RT Davies**

**Nick Ramsay**

**NNDM7463**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod y Gymdeithas Strôc wedi cyhoeddi ymchwil i brofiadau goroeswyr strôc yn ystod pandemig COVID-19, a ganfu fod goroeswyr strôc a gofalwyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

2. Yn nodi bod derbyniadau mewn unedau strôc acíwt yng Nghymru wedi gostwng 12 y cant rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 o gymharu â 2019.

3. Yn credu, er gwaethaf pandemig COVID-19, y dylai goroeswyr strôc allu parhau i gael gafael ar y gofal acíwt, y gwasanaethau adsefydlu, y driniaeth iechyd meddwl a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i adfer cystal â phosibl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn parhau â'u gwaith i wella gofal strôc yng Nghymru ac nad ydynt yn caniatáu i COVID-19 ohirio newidiadau strwythurol y mae mawr eu hangen.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau strôc pan ddaw'r cynllun cyflawni presennol ar gyfer strôc i ben er mwyn sicrhau bod gofal i'r rhai y mae strôc yn effeithio arnynt yn cael ei gryfhau ledled Cymru yn y dyfodol.

Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc 2017-2020

**Wedi'i gefnogi gan:**

**Llyr Gruffydd**

**Mark Isherwood**

**Neil McEvoy**

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 25 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

*Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 25 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Amserlen y Senedd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar slotiau cyfarfod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn yr wythnosau gwarchodedig.

## 6 Papurau i’w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Bwrdd Taliadau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i anfon ateb interim, yn hysbysu'r Bwrdd Taliadau bod y Pwyllgor wrthi'n adolygu'r Rheolau Sefydlog ar grwpiau.